



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Bryn Eithin Residential Care Ltd

**30 Llanrwst Road
Bae Colwyn
LL29 7YU**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

10 Chwefror 2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid ichi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Bryn Eithin Residential Care Ltd

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb ofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Bryn Eithin Residential Care Ltd
Lleoedd cofrestredig	25
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	12 Chwefror 2019
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg, ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth da gan dîm o staff gofalgar ac ymrwymedig. Maent yn cael gofal amserol i sicrhau eu bod yn gallu aros mor iach â phosib. Mae awyrgylch hapus a chynnes yn y gwasanaeth ac mae rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw ac uwchraddio'r amgylchedd. Mae'r rheolwr yn bresenoldeb amlwg ac yn gefnogol i'r tîm staff ac mae'r staff ar bob lefel yn teimlo eu bod nhw'n medru trafod unrhyw faterion neu bryderon yn agored. Mae systemau ar waith gan ddarparwr y gwasanaeth i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ar sail barhaus, er mwyn datblygu a gwella ymhellach y canlyniadau i'r bobl sy'n byw yn y cartref.

Llesiant

Mae hawliau pobl yn cael eu hyrwyddo gan eu bod yn cael eu hannog i gymryd rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol a gwirioneddol rhwng pobl a'r staff gofal, ynghyd â rhyngweithio dymunol rhwng y bobl eu hunain. Roedd chwerthin a siarad i glywed rhwng y bobl a'r staff gofal. Trwy gydol yr ymweliad, arsylwasom ar staff gofal yn cnocio ar ddrysau ystafelloedd gwely'r bobl, a gofyn am ganiatâd cyn mynd i mewn. Siaradodd y bobl a'u perthnasau mewn termau cadarnhaol am y gwasanaeth, y tîm o staff a'r rheolwyr. Roedd sylwadau yn cynnwys: *“Mae'r staff yn bobl hyfryd, does gen i ddim problemau yma”*, *“Nid gartref yw hwn ond y peth agosaf iddo – maent yn garedig iawn yma”* ac *“Mae Mam yn cael ei thrin yn dda iawn, does gen i ddim cwyn.”* Mae yna ddewisiadau ar gael i bobl mewn perthynas â'u trefniadau dyddiol arferol, megis pryd i godi yn y bore a phryd i fynd i'r gwely yn y nos. Mae'r bobl yn penderfynu sut a lle maent yn dymuno treulio eu diwrnod, a ph'un a ydynt eisiau cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau grŵp ai peidio.

Mae iechyd a llesiant y bobl yn cael eu hyrwyddo. Mae'r timau staff cyson yn wybodus am y bobl maent yn eu cynorthwyo a'u hanghenion penodol. Mae cyfathrebu clir o fewn y gwasanaeth, ac mae newidiadau yn cael eu cyfleu'n gyfrinachol ac effeithiol. Mae'r staff gofal yn cynorthwyo pobl i fynd at wasanaethau gofal iechyd mewn modd amserol. Mae atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud a cheisir cyngor i helpu pobl i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Dywedodd y rheolwr wrthym fod ganddo gysylltiadau da â gweithwyr proffesiynol eraill, y gallai gysylltu â nhw am gyngor a chymorth ynglŷn ag unigolion yn byw yn y gwasanaeth. Cadarnhaodd gweithwyr iechyd proffesiynol a gyfrannodd i'r arolygiad hwn fod ganddynt berthynas gadarnhaol â'r gwasanaeth a bod cyfathrebu yn dda. Mae pobl yn ganmoliaethus am ansawdd y prydiau bwyd, ac mae dewisiadau ar gael amseroedd bwyd hefyd, gan gynnwys ym mha le yr hoffai'r bobl gael eu prydiau bwyd. Mae'r cogydd a'r staff gofal yn gyfarwydd â hoffterau unigol pobl ac unrhyw anghenion deietegol ac mae'r rhain yn cael eu cofnodi yn nogfennau gofal y bobl.

Caiff pobl eu diogelu a'u hamddiffyn rhag niwed. Mae systemau ar waith i sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel wrth hyrwyddo eu hannibyniaeth. Mae mesurau ac asesiadau risg ar gael i lywio staff ar sut i liniaru unrhyw risgiau i iechyd a llesiant pobl. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn y gwasanaeth. Gwelsom fod iaith corff a mynegiadau'r bobl yn dangos eu bod yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni'r staff gofal sy'n eu cynorthwyo.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn aros yn gynaliadwy yn ariannol, a'i fod yn medru gwrthsefyll yr heriau y mae'r gwasanaeth wedi eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Er gwaethaf y pandemig, mae gwelliannau wedi cael eu gwneud yn y gwasanaeth ers yr arolygiad diwethaf, sydd wedi gwella canlyniadau ar gyfer y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

Gofal a Chymorth

Mae pobl yn cael gofal da oddi wrth dîm o staff sydd yn barchus ac yn uchel eu cymhelliant. Cwblheir cyn-asesiadau cyn i bobl gael eu derbyn gan y gwasanaeth. Mae hyn yn sicrhau bod gan y staff gofal y sgiliau angenrheidiol i ofalu am y bobl ynghyd â sicrwydd bod y cyfleusterau a'r amgylchedd yn briodol. Mae cynlluniau gofal personol ac asesiadau risg yn drylwyr yn gyffredinol ac yn dangos bod dewisiadau unigol pobl yn hysbys ac yn cael eu deall. Mae angen goruchwyliaeth bellach i sicrhau bod dogfennau gofal yn cael eu hadolygu bob tri mis neu pan fydd newid yn digwydd. Dylid cofnodi cyfranogiad pobl a'u perthynas yn eu hadolygiadau'n well hefyd. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â hwy yn hapus gyda safon y gofal a chymorth a ddarperir, ac yn teimlo ei bod yn diwallu eu hanghenion. Mae cynlluniau personol yn cynnwys manylion am hoffterau personol pobl, a gwelsom fod yr hoffterau hyn yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi gan staff a rheolwyr. Mae gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo i sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei gynnal.

Yn gyffredinol, mae systemau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn y gwasanaeth, ond mae angen rhai gwelliannau. Mae meddyginiaeth yn cael ei storio yn ddiogel ac mae archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod meddyginiaeth pobl yn cael ei storio a'i rhoi yn ddiogel. Roedd bylchau yn lle llofnodion mewn lleiafrif bach o'r Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (MAR) y gwnaethom edrych arnynt. Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr, a roddodd sicrwydd i ni y byddai hyn yn cael sylw. Mae'r staff gofal wedi cael eu hyfforddi i roi meddyginiaeth ond nid ydynt wedi cael eu hasesiad cymhwysedd blynyddol. Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr, a roddodd sicrwydd i ni y byddai hyn yn derbyn sylw. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae systemau a phrosesau ar waith i amddiffyn pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn y gwasanaeth. Mae polisi diogelu ar gael i roi arweiniad i staff, ond mae angen diweddarau hwn i gydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant diogelu ac maent yn hyderus yn eu gallu i nodi ac adrodd am unrhyw faterion diogelu. Cofnodir unrhyw ddigwyddiadau hysbysadwy a chânt eu hadrodd i'r awdurdodau priodol. Dangosodd adolygiad o'r cofnod damweiniau a digwyddiadau fod damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cofnodi a'u hadolygu gan y rheolwr. Cofnodir unrhyw ddigwyddiadau yn ffeiliau unigol pobl hefyd ac mae cynlluniau gofal pobl yn cael eu diweddarau pan fo angen. Mae hyn yn caniatáu i'r gwasanaeth fod yn weithredol ac atal hyn rhag digwydd eto os oes modd.

Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth i bobl mewn amgylchedd sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae cynllun a maint yr adeilad yn addas ar gyfer darparu gwasanaeth fel y disgrifir yn y datganiad o ddiben. Mae'r gwasanaeth yn lân, yn gartrefol, ac wedi'i ddodrefnu'n dda. Mae'r gwasanaeth yn darparu amgylchedd hamddenol a chroesawgar. Mae nifer o lolfeydd cymunol ar gael i'r bobl eistedd, ymlacio a chael sgysiau ynddynt. Dywedodd y bobl wrthym eu bod nhw'n hapus gyda'u hystafelloedd a'u bod nhw'n teimlo'n gartrefol yn y gwasanaeth. Arddangosir ffotograffau ac addurniadau, gan roi teimlad personol, er mwyn i'r bobl gofio a myfyrio ar y pethau pwysig yn eu bywydau. Mae'r cartref a'i gynnwys mewn cyflwr da ac mae'n amlwg bod yr amgylchedd ac unrhyw waith sydd ei angen yn cael eu hystyried fel rhan o'r trefniadau llywodraethu cyffredinol.

Mae gwiriadau iechyd a diogelwch o'r safle yn cael eu cwblhau. Mae gan y cartref lyfr ymwelwyr sy'n cael ei lenwi yn unol â'r trefniadau diogelwch tân ac mae gwiriadau o hunaniaeth ymwelwyr yn cael eu cynnal. Gofynnir i ymwelwyr hefyd gwblhau prawf llif unffordd COVID-19 cyn dechrau eu hymweliad â'r safle, yn unol â chanllawiau presennol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae dogfennau diogelwch tân ar waith, gan gynnwys cynlluniau personol gadael mewn argyfwng ac ymarferion a gwiriadau diogelwch tân. Mae holl ardaloedd y cartref yn cael eu cynnal a'u cadw i safon dda, ac mae unigolyn cynnal a chadw ar gael i gwblhau tasgau iechyd a diogelwch pan fydd angen. Gwelsom fod y cyfarpar mewn cyflwr gweithio da, ac yn cael ei wasanaethu o fewn y cyfnod amser a benodwyd. Mae cofnodion ar gael i ddangos bod gwiriadau iechyd a diogelwch yn cael eu gwneud yn rheolaidd i sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel i bobl fyw ynddo. Mae gan y gwasanaeth sgôr hylendid bwyd o 5.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid ac yn rheoli'r risg o heintiau. Dywedodd staff gofal wrthym eu bod nhw'n hapus gyda'r mesurau ar waith i leihau'r risg o COVID-19 iddynt hwy ac i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae lefelau da o lanweithdra ym mhob rhan o'r adeilad, gydag amserlenni glanhau ar waith sy'n cael eu cwblhau gan staff domestig. Mae'r holl staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol ac yn dilyn arferion atal a rheoli heintiau da.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Darperir y gwasanaeth hwn yn unol â'i ddatganiad o ddiben. Mae'r datganiad o ddiben yn disgrifio'r trefniadau presennol sydd gan y gwasanaeth ar waith ynglŷn â gofal a llety'r bobl yn gywir. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r staff ac yn darparu canllawiau a gwybodaeth i'w cynorthwyo yn eu rolau. Mae gan y gwasanaeth weithdrefn gwyno hygyrch ar waith a dywedodd pobl a'u perthnasau wrthym eu bod nhw'n hyderus y byddai eu cwynion yn cael gwrandawriad ac y byddent yn derbyn sylw.

Mae'r rheolwr newydd yn angerddol ynglŷn â grymuso'r staff gofal a'u cefnogi i ddatblygu ymhellach yn eu rolau. Mae'r staff gofal yn defnyddio geiriau fel *“cefnogol”* a *“hawdd mynd ato”* i ddisgrifio'r rheolwr. Mae ein trafodaethau gyda'r tîm staff a'n harsylwadau yn dangos bod diwylliant agored a chynorthwyol yn y gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth, gan wneud sylwadau fel: *“Rydw i wrth fy modd yma”* ac *“Rydym i gyd yn cefnogi ein gilydd ac am wneud y gorau dros y preswylwyr.”* Mae'r staff gofal wedi bod yn cael goruchwyliaeth un i un ers i'r rheolwr newydd ddechrau. Fodd bynnag, nid yw'r staff gofal wedi cael arfarniad blynyddol. Nid yw hyn yn rhoi cyfle iddynt dderbyn adborth ar eu perfformiad na nodi meysydd ar gyfer hyfforddiant a datblygu er mwyn eu cynorthwyo yn eu rôl. Trafodwyd a chydabuwyd hyn gan y rheolwr, ac mae wrthi'n mynd i'r afael â'r mater. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Diwallir anghenion gofal a chymorth y bobl mewn modd ymatebol ac amserol. Mae nifer priodol o staff ar ddyletswydd i alluogi pobl i gael y gofal a'r cymorth y mae eu hangen arnynt ar yr amser cywir. Darperir gofal a chymorth mewn modd hamddenol ac mae clychau galw yn cael eu hateb yn briodol. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant i'w galluogi i fodloni gofynion eu rolau ac i ddiwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Cydnabyddir bod y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar hyfforddiant ymarferol. Trafodasom hyn gyda'r rheolwr, a ddywedodd wrthym fod hyfforddiant yn faes sy'n cael ei ddatblygu, yn enwedig o gwmpas datblygiad personol a'r rhaglen hyfforddi'r hyfforddwr.

Yn gyffredinol, mae recriwtio staff yn foddhaol yn y gwasanaeth ac mae gan ffeiliau staff y gwiriadau angenrheidiol ar waith, gan sicrhau bod staff yn addas i weithio gydag oedolion agored i niwed. Nodwyd gennym fod gan un o'r staff gofal dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd nad oedd yn gyfredol. Fodd bynnag, digwyddiad prin yw hwn, a rhoddodd y rheolwr sicrwydd i ni y byddai'n cael sylw.

Mae trefniadau ar waith ar gyfer goruchwyliaeth effeithiol o'r gwasanaeth drwy brosesau sicrhau ansawdd a threfniadau llywodraethu parhaus. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn ôl yr angen. Mae adolygiad ansawdd gofal ar gael er mwyn asesu, monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae dogfennau a adolygwyd yn ystod yr arolygiad yn dangos tystiolaeth o ddull gweithredol ar gyfer sicrhau ansawdd.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol
45(1)	Nid yw'r unigolyn cofrestredig yn bodloni gofynion y rheoliadau o ran ystafelloedd a rennir yn y cartref.	Cyflawnwyd

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
58	Rhaid i'r staff gofal gael aseciad cymhwysedd blynyddol o'u gwybodaeth, sgiliau a chymwysterau mewn perthynas â rhoi a rheoli meddyginiaethau.	Newydd
36	Rhaid i'r holl staff gael arfarniad blynyddol sy'n darparu adborth ar eu perfformiad ac yn nodi meysydd ar gyfer hyfforddiant a datblygu er mwyn eu cynorthwyo yn eu rolau.	Newydd
34	Nid yw'r unigolyn cofrestredig yn bodloni gofynion y rheoliadau yn llawn ynglŷn â staffio.	Cyflawnwyd

Dyddiad cyhoeddi

16 Mawrth 2022